

Enw	Y Gwir a'r Holl Wir (enw i'w gadarnhau)
Uwch gynhyrchydd	Gareth Iwan Jones / Sioned Lewis
Slot	Podlediad
Cyflwynydd	Nic Parry
Hyd	Oddeutu 30 munud
Pris	£3,600 y bennod
Briff	Cyfres o 8 o bodlediadau wedi eu cyflwyno gan Nic Parry, yn edrych ar achosion troseddol o Gymru. Mae podlediadau troseddol ("true crime") yn genre tu hwnt o boblogaidd, gyda gwrandawyr yn cael eu denu at straeon pwerus a gafaelgar sy'n medru bod yn ddifyr a dychrynlyd, ac yn llawn cyffro. Mae llwyddiant podlediadau Cymreig yn y Saesneg megis The Crossbow Killer a Death Of A Codebreaker wedi profi fod awydd gan y gynulleidfa yng Nghymru am y math yma o gynnwys, ac mae podlediadau fel 'Strange But True Crime' yn dangos fod modd cynhyrchu podlediad yn y maes mewn ffordd gynaliadwy. Prif fwriad y podlediad yma yw denu gwrandawyr Radio Cymru draw at blatfform BBC Sounds, ond gan hefyd obeithio denu rhai gwrandawyr newydd Byddwn yn edrych ar un achos ym mhob pennod, gan dreulio tua hanner awr 'o gwmpas y bwrdd' mewn stiwdio yn adrodd a dadansoddi'r stori yn fanwl. Bydd Nic Parry yn cael cwmni ail-lais cyson ar gydol y gyfres, fydd yn dod ag arbenigedd unigryw i'r podlediad e.e. profiad yn y gwasanaethau brys, arbenigedd fforensig neu seiciatryddol ayyb. Mae datblygu dealltwriaeth gref rhwng Nic a'r ail lais yn allweddol. Yn ogystal, bydd gwestai arbennig ym mhob pennod fydd â phrofiad uniongyrchol o'r achos – mwy na thebyg fel newyddiadurwr – gan ddilyn patrwm y podlediad Strange But True Crimes. Bydd y trafod yn dilyn fformat penodol ym mhob pennod, fel fod strwythur cynaliadwy i'r podlediad. Gall yr achosion fod yn amrywiol – o lofruddiaethau i ladrata, twyll ayyb, ond bydd yr achosion oll â

chyswllt a Chymru, a gyda stori gref er mwyn cynnal y trafod. Mae'n bosib bydd rhai o'r straeon yn gyfarwydd, ond fod mwy i'w ganfod a'i ddweud. Er bydd elfennau dwys i'r trafod a bydd angen gofal a sensitifrwydd fe fydd y trafod yn gyffredinol yn anffurfiol iawn ei naws – a phan yn briodol, mae lle hefyd i hiwmor ac i ysgafnder.

Gall y podlediad gynnwys “vox pops” o ardaloedd gwahanol lle'n bosib er mwyn cynnig elfen gymunedol a lleol, ac elfennau o archif a cherddoriaeth llyfrgell (yn dilyn canllawiau hawlfraint BBC ar gyfer podlediadau) er mwyn creu dyluniad sain apelgar ac amrywiol.

Bydd disgwyl i'r darparwyr fod â phrofiad helaeth o ddelio â materion golygyddol a chyfreithiol cymhleth, a bydd disgwyl i'r darparwr fod yn barod i ymgynghori'n gyson gyda Uwch-Gynhyrchydd y BBC ac adrannau cyfreithiol a Golygyddol y BBC.

Fel rhan o'r broses gomisiynu byddwn yn gofyn i gwmnïau pa gynnwys fideo y gellid ei ddarparu i gyd-fynd â phob pennod, at ddibenion hyrwyddo ar y cyfryngau cymdeithasol a BBC Cymru Fyw.